Cyngor Abertawe Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu**

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Lilian Hopkin, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2024 am 4.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| A Davis | E W Fitzgerald | M Jones |
| W G Lewis | F D O'Brien | S Pritchard |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**

| | |
|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee |

**Cynghorwyr sy'n Aelod(au) Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | L R Jones |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Samantha Jenkins | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Paul Thomas | Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Arweiniol Strategol (Cyd-Gadeirydd Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel) |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd Alyson Anthony – Aelod y Cabinet dros Les
Y Cynghorydd Cyril Anderson - Aelod y Cabinet dros y Gymuned (Gwasanaethau)
Y Cynghorydd Hayley Gwilliam - Aelod y Cabinet dros y Gymuned (Cefnogi)
Y Cynghorydd Rob Stewart - Yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth

Heddlu De Cymru:
Prif Uwch-arolygydd Chris Truscott
Uwch-arolygydd Mark Kavanagh (Cyd-Gadeirydd Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel)
Prif Arolygydd James Ratti, Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau
Jessica Williams – Rheolwr Diogelwch Cymunedol

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: V A Holland and T M White
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: S M Jones

## 96 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr C A Anderson, M Jones a W G Lewis gysylltiad personol â Chofnod 100 – Craffu ar Drosedd ac Anhrefn – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel.

## 97 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 98 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 fel cofnod cywir.

## 99 Cwestiynau gan y cyhoedd

Dim.

## 100 Craffu ar Drosedd ac Anhrefn - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel

Daeth cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru a'r cyngor i'r cyfarfod er mwyn darparu adroddiad cynnydd ar Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel, ac ateb cwestiynau, a gyd-gadeirir gan y ddau sefydliad.

Rhoddwyd papurau i'r Pwyllgor a oedd yn myfyrio ar berfformiad y Bartneriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf i helpu i arwain y drafodaeth a'r cwestiynau, ac ystyriwyd y materion a godwyd yn ystod y sesiwn ddiwethaf ym mis Ebrill 2023, gan gynnwys:

- Adroddiad Adolygiad Partneriaeth Blynyddol Abertawe Mwy Diogel 2023 (Atodiad 1);
- adroddiad cynnydd ar Ddysgu o'r Aflonyddwch ym Mayhill, mewn ymateb i argymhellion yr Adolygiad Dysgu Annibynnol a chanfyddiadau Adolygiad Mewnol yr Heddlu a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd (Atodiad 2);

- enghreifftiau o ymagwedd y bartneriaeth at gyd-gynhyrchu (Atodiad 3); a
- gwerthusiad o Ymgyrch Viscaria, ymateb i achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yng Nghanol y Ddinas (Atodiad 4).

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ystadegau Trosedd ac Anhrefn – y rhesymeg ar gyfer cymharu perfformiad yn 2023 yn erbyn blwyddyn ariannol 2019/2020. Nodwyd bod data a gafwyd yn ystod cyfyngiadau symud COVID yn cynhyrchu data ffug ac ystyriwyd ei bod yn briodol cymharu'r data perfformiad mewn perthynas â Blaenoriaethau Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel yn y flwyddyn cyn y cyfyngiadau symud.

- Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol Eraill - roedd y data'n dangos cynnydd yn nifer y troseddau. Nodwyd bod tîm ymroddedig wedi'i sefydlu i ddelio â thrais rhywiol difrifol a throseddau rhywiol difrifol eraill. Roedd y 'Siop dan yr Unto' a oedd yn cynnwys cydweithio â sefydliadau trydydd sector wedi arwain at Heddlu De Cymru'n cael y nifer uchaf o gyhuddiadau yn erbyn troseddwyr ac erlyniadau yng Nghymru, a'r perfformiad ail orau yn genedlaethol. Roedd angen dilyniant a datblygiad parhaus ar y maes gwaith hwn.

- Gostyngiad mewn Troseddau – roedd ystadegau'n dangos y cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau byrgleriaeth. Darparwyd trosolwg cynhwysfawr o'r broses ar gyfer delio â byrgleriaeth wrth iddi fynd rhagddo a byrgleriaethau hanesyddol. Datblygwyd uned wyddonol ar y cyd ac roedd ditectifs wedi'u neilltuo i'r ddau fath o ddigwyddiadau. Roedd Heddlu De Cymru yn y trydydd safle yn genedlaethol o ran sicrhau erlyniadau.

- Troseddau Ceir – er bod troseddau ceir wedi gostwng yn sylweddol, roedd tîm ymroddedig wedi'i sefydlu i reoli'r cynnydd mewn dwyn beiciau modur.

- Dwyn o siopau/troseddau ar-lein – Bu cynnydd ledled y wlad mewn troseddau dwyn o siopau ac ar-lein.

- Iechyd Meddwl – gofynnodd y Pwyllgor am yr ymateb lleol ac unrhyw newidiadau i ymagwedd yr Heddlu. Darparwyd trosolwg cynhwysfawr ynghylch y broses ar gyfer blaenoriaethu a rheoli galwadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Bydd system newydd ar waith erbyn mis Chwefror 2025 a fydd yn cysylltu pobl â'r gwasanaethau cywir i wella canlyniadau a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor maes o law. Cydnabuwyd bod gwasanaethau ar gyfer iechyd meddwl yn parhau i fod yn her.

- Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) – goblygiadau ar gyfer Trosedd ac Anhrefn lleol yn dilyn y cyhoeddiad am doriadau cenedlaethol i gyllidebau/gweithlu PCSO. Nodwyd bod dadansoddiad manwl o ddata'r ward yn cael ei gynnal. Ni ragwelwyd y byddai diswyddiadau, fodd bynnag, cydnabuwyd ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw PCSOs sy'n gadael eu swyddi yn cael eu disodli. Roedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan PCSOs i ysgolion yn amhrisiadwy, fodd bynnag, roedd cyllid bellach wedi dod i ben a byddai'r staff yn parhau yn eu rolau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd.

- Perthynas rhwng Plismona yn y Gymdogaeth 101 a 999 – soniodd Heddlu De Cymru am y pryderon ynghylch y cydgysylltedd rhwng y rhain a Chynghorwyr nad ydynt yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar eu hardaloedd / preswylwyr. Gwnaethant sylwadau hefyd am bryder a godwyd ynghylch bylchau adrodd rhwng pob gwasanaeth, sy'n arwain at beidio ag ymchwilio i rai materion. Nodwyd bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud a bod 92% o alwadau'n cael eu hateb, gydag amser aros cyfartalog o 2.5 munud. Roedd cyfleuster sgwrsio ar-lein ar gael hefyd. Derbyniwyd 2,500 o alwadau bob dydd ac amlinellwyd y broses pump cam ar gyfer ymdrin â galwadau. Estynnwyd gwahoddiad i Gynghorwyr ymweld â'r ystafell reoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle ymdrinnir â galwadau 101 a 999.

- Dysgu o'r Anhrefn ym Mayhill – rhoddwyd sicrwydd ynghylch defnyddio adnoddau pe bai sefyllfa debyg yn codi yn y dyfodol. Roedd cyfres o ddigwyddiadau prawf wedi eu treialu ac roedd profiadau wedi'u hennill yn dilyn y sefyllfa yn Nhrelái, Caerdydd yn 2023. Er bod Heddlu De Cymru'n fodlon ar y gweithdrefnau a oedd ar waith, nid oeddent yn hunanfodlon ac roeddent yn gweithio gyda chymunedau i reoli tensiynau.

- Gweithio ar y cyd gydag asiantaethau i reoli cysylltiadau iechyd meddwl â chamddefnyddio sylweddau - nododd Heddlu De Cymru fod hon yn her barhaus a'u bod yn gweithio gyda'i gilydd. Nodwyd bod disgwyl i Gomisiwn Cyffuriau annibynnol a sefydlwyd i archwilio'r nifer uchel o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot adrodd yn ôl yn ddiweddarach eleni gydag argymhellion.

- Y Stryd Fawr – manylwyd ar yr heriau parhaus yn yr ardal ynghyd â'r buddsoddiad yn yr ardal. Nodwyd bod erthygl newyddion ddiweddar wedi adrodd am faterion hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ardal ac nid oedd yn adlewyrchiad o'r sefyllfa bresennol a gwelliannau parhaus.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyd-gadeiryddion, Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, Aelod y Cabinet dros Les, Aelod y Cabinet dros y Gymuned (Cefnogaeth), Swyddogion a Chynrychiolwyr Heddlu De Cymru am eu mewnbwn.

**Penderfynwyd** y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Cyd-gadeiryddion gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 101 Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid (Y Cynghorydd Chris Holley, Cynullydd).

Darparodd y Cynghorydd C A Holley adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar waith/weithgareddau'r Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid.

**Penderfynwyd** nodi Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid.

## 102 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau.

Nid oedd unrhyw newidiadau i adrodd amdanynt.

## 103 Rhaglen Waith Craffu

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad arferol ar y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2023/24 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Cadarnhaodd fod y prif eitemau ar gyfer y Pwyllgor nesaf ar 14 Mai yn cynnwys:

1) Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.
2) Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24.
3) Adolygiad Diwedd Blwyddyn y Pwyllgor 2023/24.

## 104 Llythyrau Craffu

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y llythyrau canlynol, gan fyfyrio ar weithgarwch craffu diweddar y Pwyllgor:

1) Pwyllgor – Sesiwn Holi ac Ateb gyda'r Arweinydd – 16 Ionawr 2024 - Llythyr at / oddi wrth Aelod y Cabinet dros yr Economi, Strategaeth a Chyllid (Arweinydd).
2) Pwyllgor – Dilyniant – Gweithgor Diogelwch Ffyrdd – 16 Ionawr 2024 - Llythyr at / oddi wrth Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd.
3) Pwyllgor - Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth 2022/23 – 19 Mawrth 2024 - Llythyr at Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau (Dirprwy Arweinydd).

## 105 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfodydd Panel/Gweithgor/Craffu Rhanbarthol sydd ar ddod, ar gyfer ymwybyddiaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.28pm

**Cadeirydd**